OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 3365

## Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Plant) (Cymru) 2005

## RHAN III

NATUR A CHWMPAS Y WEITHDREFN SYLWADAU

**Ymdrin â sylwadau safonau gofal**

**10.**—(1) Ac eithrio pan fydd paragraff (2) yn gymwys, mewn unrhyw achos pan fydd sylwadau'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n rhannol â gwasanaethau a ddarperir gan sefydliad neu asiantaeth y mae person wedi'i gofrestru gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn cysylltiad ag ef neu â hi o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 neu Ddeddf Plant 1989, rhaid i'r awdurdod lleol y daw sylwadau o'r fath i'w law, o fewn 2 ddiwrnod gwaith i'r sylwadau ddod i law—

(a) anfon manylion am y sylwadau cyfan neu am y rhan honno o unrhyw sylw sy'n ymwneud â'r gwasanaeth cofrestredig at y person a gofrestrwyd fel darparwr mewn cysylltiad â'r sefydliad hwnnw neu'r asiantaeth honno;

(b) gofyn i'r person yr anfonir ato fanylion o dan is-baragraff (a) hysbysu'r awdurdod o fewn 10 niwrnod gwaith o ganlyniad ei ystyriaeth o'r gŵyn; a

(c) hysbysu'r achwynydd o'r camau sydd wedi'u cymryd o dan is-baragraffau (a) a (b).

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys—

(a) pan fo sylwadau eisoes wedi'u hystyried gan y person cofrestredig; neu

(b) pan fo'r awdurdod lleol o'r farn y byddai mynd ymlaen o dan baragraff (1) yn debygol o beryglu neu ragfarnu'r ymchwiliad i'r sylwadau o dan Ran IV o'r Rheoliadau neu y byddai'n peryglu neu'n rhagfarnu ymchwiliad gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(3) Mewn unrhyw achos pan fo sylwadau'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n rhannol â gwasanaethau a ddarperir gan sefydliad neu asiantaeth y mae person wedi'i gofrestru gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn cysylltiad ag ef neu hi, rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu swyddfa briodol ("appropriate office") y Cynulliad Cenedlaethol os na fu'n bosibl dod i benderfyniad ar y sylwadau o dan reoliad 15.